

COFNODION Y CYFARFOD

Dyddiad: Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2000

Amser: 8.30am

Lleoliad: Ystafell y Llywydd (A3.13)

Yn bresennol: John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Trefnydd Busnes Plaid Cymru
William Graham, Trefnydd Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Trefnydd Busnes y Democratiaid
Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r
Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Jill Thomas, Swyddfa Gyflwyno (eitem 5)
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
(eitem 6)
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8)

1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dim.

2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

BC285-00 (cyfarfod 24/10/00)

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu diwyg terfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr

BC296-00 (cyfarfod 31/10/00)

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf yn eu diwyg terfynol.

Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr

3. Materion yn codi (BC296-00)

3.1 Paragraff 3.1 – Dywedodd y Trefnydd fod y Prif Weinidog yn cyfarfod ag arweinwyr y pleidiau ar 8 Tachwedd. Yr oedd yn gobeithio adrodd gwybodaeth yn ôl ynghylch cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog ar ôl hynny.

Gweithredu: Prif Weinidog

3.2 Paragraff 3.2 – Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC304-00 ynghylch rôl Dirprwy Ysgrifenyddion. Cytunodd Marion Stapleton i ddiwygio'r paragraff ar bresenoldeb mewn pwyllgorau pwnc, er mwyn ymgorffori'r Rheol Sefydlog berthnasol ar drefniadau eilyddio. Dywedodd Kirsty Williams y dylai pob plaid barchu ysbryd y paragraff "Cyfarfod Llawn", sy'n nodi fod gan Dirprwy Weinidogion hawl i siarad fel meincwyr cefn mewn dadleuon cyffredinol.

Gweithredu: Marion Stapleton i wneud diwygiadau priodol a chyhoeddi papur i bob Aelod maes o law

3.3 Paragraff 5.3 – Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n defnyddio'r term "toriad" fel yr awgrymwyd gan Jocelyn Davies, yn hytrach na'r term presennol "wythnosau yn yr etholaethau".

3.4 Paragraff 6.1 – Dywedodd y Trefnydd ei fod yn gobeithio cyflwyno'r cynnig i ethol aelodau i'r pwyllgorau pwnc yn ystod y cyfarfod llawn yn ddiweddarach yn y dydd.

3.5 Paragraff 7.6 – Cytunodd William Graham y dylai cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes gychwyn am 9.00am yn y dyfodol. Byddai cyfarfod yr wythnos nesaf yn cychwyn am 9.00am.

3.6 Paragraff 8.4 – Byddai Marion Stapleton yn adrodd yn ôl ynghylch y geiriad arfaethedig ar gyfer cynigion i'w nodi yn adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau, a oedd yn rhoi sylw penodol i orchmyn penodol cyn gynted â phosibl. **Gweithredu: Marion Stapleton**

4. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn

4.1 Dywedodd Jocelyn Davies fod grwp y Democratiaid Rhyddfrydol yn cael eu gweld fel rhan o'r Llywodraeth ers ffurfio'r glymblaid. Gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried a oedd yn briodol i'r Democratiaid Rhyddfrydol gyflwyno gwelliannau i gynigion y Llywodraeth. Ychwanegodd fod yna ddealltwriaeth gyffredinol nad oedd grwpiau yn diwygio'u cynigion eu hunain, er bod perffaith hawl ganddynt wneud hynny yn ôl y rheolau. Fodd bynnag, nid oedd yn fwriad gan ei grwp i gwtogi ar hawliau unrhyw Aelod o'r meinciau cefn. Awgrymodd y gallai Trefnwyr Busnes ystyried y canlynol:

- ymestyn y ddealltwriaeth fel nad oedd modd i'r Democratiaid Rhyddfrydol gyflwyno gwelliannau i gynigion y Llywodraeth
- sefydlu gweithdrefn lle y byddai Trefnwyr Busnes y pleidiau yn gyfrifol am gyflwyno gwelliannau i gynigion y Llywodraeth. Pe bai Aelod o'r meinciau cefn yn cyflwyno cynnig yn ei enw ei hun, byddai hynny'n amlwg i'r Aelodau eraill ar unwaith.

Cytunwyd y byddai'r Trefnwyr Busnes yn ystyried yr awgrymiadau hyn ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Trefnwyr Busnes**

5. Cyngor i'r Cynulliad ynghylch gweithdrefnau

5.1 Mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried papur BC272-00 (diwygiedig) ar gynigion ynghylch toriad 2001. Dywedodd y Trefnydd ei fod yn deall y byddai arweinwyr y pleidiau yn ystyried y toriad ar gyfer cynadleddau'r pleidiau yn y cyfarfod i'w gynnal ar 8 Tachwedd. O gofio bod tymor cynadleddau 2001 beth amser i ffwrdd, byddai'n well ganddo aros hyd nes byddai'r mater wedi'i drafod bryd hynny. Yr oedd Kirsty Williams yn dal o'r farn fod ei grwp yn gweld gwerth mewn bod yn bresennol yng nghynhadledd genedlaethol y blaid, a byddai angen i'r Pwyllgor Busnes ystyried ffordd o gynnwys pleidiau nad ydynt yn bresennol yn y Cynulliad o ganlyniad i'r cynadleddau. Dywedodd y byddai'n well gan grwp y Democratiaid Rhyddfrydol pe bai tymor y cynadleddau yn cael ei ychwanegu at doriad yr haf, pe bai'n bosibl. Dywedodd William Graham fod ei grwp o'r farn y dylid cael toriad ar gyfer tymor y cynadleddau, a dylai pob Aelod o bob grwp fod yn bresennol yn ddiwahân. Fodd bynnag, arweiniodd eu habsenoldeb eleni at drafferthion wrth gyflwyno cwestiynau ar gyfer cyfarfodydd llawn yr wythnos ddilynol, ac yr oedd angen ystyried yr holl fater ymhellach. Dosbarthwyd papur, sy'n rhoi manylion ynghylch nifer yr wythnosau y mae Seneddau Ewropeaidd yn cwrdd, er gwybodaeth.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol ar ddyddiadau'r toriad ar gyfer hanner tymor y gwanwyn a'r Pasg:

- Hanner tymor y gwanwyn 19-25 Chwefror 2001
- Y Pasg 9-29 Ebrill 2001

Byddant yn ystyried toriad y Sulgwyn a dyddiad cychwyn toriad yr Haf yr wythnos nesaf.

5.3 Ystyriodd y Pwyllgor papur BC298-00 gyda chanllawiau drafft diwygiedig ynghylch gosod dogfennau gerbron y Cynulliad. Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon â'r canllawiau diwygiedig a chytunwyd y dylid eu dosbarthu i bob Aelod, staff cymorth a swyddogion, gyda golwg i'r canllawiau ddod i rym mewn pythefnos. **Gweithredu: Y Swyddfa Gyflwyno**

6. Pwyllgorau

6.1 Rhybuddiodd Marie Knox y Pwyllgor y byddai angen i bwyllgorau pwnc, o bosibl, enwebu Aelodau i'w hethol i'r Paneli Penodiadau Cyhoeddus, o ganlyniad i etholiadau'r pwyllgorau sydd ar droed. Bydd angen cydbwysedd rhwng y pleidiau ar y Paneli hyn, a byddai angen eu sefydlu'n fuan, gan fod yna rai penodiadau pwysig i'w hystyried. **Gweithredu: Marie Knox i ystyried y sefyllfa ar ôl yr etholiadau i'r pwyllgorau pwnc**

6.2 Dywedodd Kirsty Williams ei bod yn bryderus fod yn rhaid i Aelodau o'r Gogledd adael eu hetholaethau ar ddydd Llun er mwyn gallu cyrraedd y

Pwyllgor Deddfau, sy'n dechrau am 9.00am. Dywedodd Marie Knox fod y Pwyllgor Deddfau wedi cytuno i ddechrau eu cyfarfodydd am 9.30am yn y dyfodol. Cytunodd i ystyried a fyddai modd cynnal y Pwyllgor Deddfau rywbryd arall yn ystod yr wythnos.

Gweithredu: Marie Knox

7. Busnes yn y dyfodol

Busnes yr wythnos hon

7.1 Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad ynghylch y tywydd garw gan fod Sue Essex yn ymweld â'r Gogledd ar hyn o bryd. Disgwylir iddi wneud datganiad llawn ynghylch ei chanfyddiadau maes o law.

7.2 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC299-00).

Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 13, 20 a 27 Tachwedd 2000

7.3 O ran datganiad arfaethedig y Trefnydd ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 13, 20 a 27 Tachwedd, cyngor y Pwyllgor iddo oedd y dylid bwrw ymlaen gan ddilyn yr amlinelliad yn y datganiad busnes drafft.

8. Is-ddeddfwriaeth

8.1 Yr oedd Jocelyn Davies wedi nodi ei bod yn fodlon â'r cyngor ychwanegol a dderbyniwyd mewn cysylltiad â Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000. Ar ôl hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd y dylai'r gorchymyn ddilyn y weithdrefn gyflymach a throsglwyddwyd yr wybodaeth hon i'r Trefnydd.

Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000

8.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC300-00, a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ynghylch y ffordd o ymdrin â'r Gorchymyn hwn. Cyngorodd aelodau'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc. Byddai'n gwneud penderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod, fel y gellid ei gyhoeddi fel rhan o fusnes y prynhawn.
Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – y weithdrefn gyflymach.

Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000

Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC303-00 a oedd yn rhoi cyngor gan Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ynghylch y ffordd o ymdrin â'r Gorchymyn hwn. Cyngorodd aelodau'r Pwyllgor Busnes

y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc. Byddai'n gwneud penderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod, fel y gellid ei gyhoeddi fel rhan o fusnes y prynhawn.

Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – y weithdrefn safonol.

9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC301-00 – adroddiad y Pwyllgor Busnes ar newidiadau i adran Ddehongli'r Rheolau Sefydlog. Gan na awgrymwyd unrhyw welliannau, caiff yr adroddiad ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno i'w ystyried mewn cyfarfod llawn yn y dyfodol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

9.2 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC302-00 ynghylch y bwriad i adolygu Atodiad Rheol Sefydlog 4. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig, a chaiff adroddiad ei baratoi i'w ystyried, cyn iddo gael ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

10. Dyfarniadau'r Llywydd

10.1 Dim.

11. Unrhyw fater arall

11.1 Dim.

YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR